CYNGOR CYMUNED BRO MACHNO

DRAFFT

Cyfarfod Nos Lun, 16 Tachwedd 2026 7.30yh Festri Salem, Penmachno

1. Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb
2. Datganiad o Fuddiant – Cod Ymddygiad
3. Ymwelydd / Siaradwr Gwadd: Dylan Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru: Croesawu Dylan Williams i'r cyfarfod i glywed diweddariad ar gynlluniau cyfredol a dyfodol CNC ar gyfer Moel Pen-y-bryn, ac i godi unrhyw faterion perthnasol eraill yn ymwneud â CNC
4. Derbyn Cofnodion y Cyfarfodydd Diwethaf
5. Adroddiad y Clerc
6. Adroddiad Cyllidol
    - Cadarnhau gwariant o £6.99 ar switsh ar gyfer y toiled cyhoeddus
7. Gyrru Peryglus ar Ffordd Glasgwm: Ystyried pryderon cynyddol ynghylch diogelwch o ran goryrru a gyrru peryglus ar hyd Ffordd Glasgwm, adolygu tystiolaeth, a chytuno ar geisiadau ffurfiol i'w cyflwyno i Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
8. Coeden Nadolig y Pentref: Cymeradwyo prynu coeden Nadolig y pentref ar gyfer 2026 (tua 24 troedfedd) gan Wyn Williams, awdurdodi gwariant o hyd at £250 gan ystyried codiadau posibl mewn costau, ac awdurdodi'r Clerc i gwblhau'r archeb a'r dyddiad danfon.
9. Ystyried ac adolygu cyflwr coeden ym mynwent Eglwys St Tudclud, sydd â changhennau neu frigau yn tyfu tuag at y brif ffordd, a phenderfynu

Meeting Monday, 16 November 2026 7.30pm Salem Vestry, Penmachno

1. Welcome and Apologies for Absence
2. Declaration of Interest – Code of Conduct
3. Visitor / Guest Speaker: Dylan Williams, Natural Resources Wales: To welcome Dylan Williams to the meeting to hear an update on NRW's current and future plans for Moel Pen-y-bryn and to raise any other relevant matters relating to NRW
4. Approval of the Minutes of the Last Meetings
5. Clerk's Report
6. Financial Report
    - Ratify expenditure of £6.99 on a switch for the public toilet
7. Dangerous Driving on Glasgwm Road: To consider growing safety concerns regarding speeding and dangerous driving along Glasgwm Road, review evidence, and agree on formal requests to be submitted to North Wales Police and Conwy County Borough Council.
8. Village Christmas Tree: To approve purchasing the 2026 village Christmas tree (~24ft) from Wyn Williams, authorise expenditure up to £250 to allow for potential cost increases and to authorise the Clerk to finalise the order and delivery date.
9. To consider and review the condition of a tree in the churchyard at Eglwys St Tudclud which has branches or twigs growing out towards the main road, and to determine the necessary course of

DRAFT

ar y camau gweithredu angenrheidiol (gan gynnwys ceisio dyfynbrisiau ar gyfer gwaith coed, os oes angen) er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd.

10. Diweddariad ar Berfformiad Rhwydwaith Wi-Fi Cymunedol a gweithdrefn ar gyfer adrodd am broblemau
11. I ystyried a chytuno ar sylwadau ar gyfer cais cynllunio NP4/29/LB231A – Adeiladu stiwdio arlunydd (Defnydd personol) yn 4 Rhosgoch, Cwm Penmachno.
12. Er gwybodaeth yn unig
13. Eitemau i'w cynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf

action (including seeking quotes for tree work, if required) in order to ensure public safety.

10. Community Wi-Fi Network Performance Update and procedure for reporting problems
11. To consider and agree on comments for planning application NP4/29/LB231A regarding the construction of an artist's studio (personal use) at 4 Rhosgoch, Cwm Penmachno.
12. For information only
13. Items to be included on the agenda for the next meeting

1. Presennol - Present:
Bethan Corrigan
Claire Roberts (Is-Gadeirydd)
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Cadeirydd)
Eifion Davies
Eryl Owain
Geraint Thomas
Wil Edwards

Dilwyn Roberts (Cynghorydd Sir)

Ymddiheuriadau - Apologies:
Owen Davis

2. Datganiad o fuddiant
Gwahoddodd y Cadeirydd aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu ragfarnus mewn unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda, yn unol â Rhan 3 o God Ymddygiad y Cyngor. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau.

2. Declaration of interest
The Chair invited members to declare any personal or prejudicial interests in any item of business on the agenda pursuant to Part 3 of the Council's Code of Conduct. None were declared.

3. Ymwelydd / Siaradwr Gwadd: Dylan Williams, Cyfoeth Naturiol Cymru
Croesawodd y Cadeirydd Dylan Williams, a fynychodd y cyfarfod yn bersonol, i roi diweddariad ar gynlluniau presennol a dyfodol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer Moel Pen-y-bryn ac i drafod materion lleol. Cadarnhaodd Mr Williams nad oes gan CNC unrhyw gynlluniau i blannu coed ar gopa Moel Pen-y-bryn. Rhoddodd wybodaeth hefyd i'r Cyngor am anawsterau mynediad presennol o ran galluogi Openreach i osod seilwaith ffeibr trwy'r goedwig i fast ffôn symudol Cwm Penmachno, gan nodi ei hyder y gellir dod o hyd i ateb.

3. Visitor / Guest Speaker: Dylan Williams, Natural Resources Wales
The Chair welcomed Dylan Williams who attended the meeting in person to provide an update on NRW's current and future plans for Moel Pen-y-bryn and to discuss local matters. Mr Williams confirmed that NRW has no plans to plant trees at the summit of Moel Pen-y-bryn. He also briefed the Council on current access difficulties in relation to enabling Openreach to install fibre infrastructure through the forest to the Cwm Penmachno mobile mast, noting his confidence that a workable solution will be found. Members also

DRAFT

Trafododd yr aelodau hefyd broblemau llifogydd yng Ngharrog a chyflwr llwybrau cyhoeddus.

Cam Gweithredu a Gytunwyd: Y dylai'r Clerc lunio rhestr o lwybrau cyhoeddus sydd angen clirio pellach a gwaith cynnal a chadw, a'i hanfon at Gyfoeth Naturiol Cymru.

Ar ran y Cyngor, diolchodd y Cadeirydd i Mr Williams am fynychu'r cyfarfod ac am ei ddiweddariad llawn gwybodaeth.

4. Derbyn cofnodion y cyfarfodydd diwethaf

PENDERFYNWYD: cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 17 Medi ac 8 Hydref 2026 fel cofnod cywir.

5. Adroddiad y Clerc:
Derbyniwyd a nodwyd adroddiad y Clerc ar faterion gweinyddol a gweithredol cyfredol.

6. Adroddiad Cyllidol
Cyflwynodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w hadolygu.
PENDERFYNWYD: Cymeradwyodd y Cyngor y trafodion a chytunodd fod yr holl faterion ariannol mewn trefn. Cadarnhawyd yn ffurfiol y gwariant o £6.99 ar gyfer switsh newydd i'r toiled cyhoeddus.

7. Gyrru Peryglus ar Ffordd Glasgwm
Ystyriodd yr Aelodau adroddiadau a phryderon gan drigolion lleol ynghylch achosion cylchol o oryrru a gyrru'n beryglus ar hyd Ffordd Glasgwm tuag at gyffordd B4406/A5 yn ystod oriau cymudo'r bore, ochr yn ochr â throseddau moduro a amheuir. Nododd yr Aelodau bwysigrwydd trigolion yn adrodd am ddigwyddiadau'n uniongyrchol i Heddlu Gogledd Cymru er mwyn sefydlu sylfaen dystiolaeth, a nodwyd y gallai patrwm teithio rheolaidd yn y bore gynorthwyo gorfodi'r Heddlu a gwiriadau ar hap wedi'u targedu.
PENDERFYNWYD: Y bydd y pryderon diogelwch ffyrdd a'r patrwm teithio rheolaidd yn y bore ar hyd Ffordd Glasgwm yn cael eu hadrodd i Heddlu Gogledd Cymru yn ogystal â chais am wiriadau ar hap wedi'u targedu yn y bore yn yr ardal. Dylid annog aelodau a thrigolion i adrodd am ddigwyddiadau penodol a manylion cerbydau'n uniongyrchol i Heddlu Gogledd Cymru wrth iddynt ddigwydd.

8. Coeden Nadolig y Pentref
Ystyriodd yr aelodau'r trefniadau ar gyfer coeden Nadolig y pentref yn 2026, gan nodi bod darpariaeth wedi'i chynnwys o fewn cyllideb gytûn y Cyngor. Nododd

discussed flooding issues at Carrog and the condition of public footpaths.

Action Agreed: That the Clerk compile and forward to Natural Resources Wales a list of public footpaths requiring further clearance and maintenance attention.

The Chair, on behalf of the Council, thanked Mr Williams for attending the meeting and for his informative update.

4. Approval of the Minutes of the Last Meetings

RESOLVED: That the minutes of the meetings held on 17 September and 08 October 2026 be confirmed as a true and accurate record.

5. Clerk's Report:
The Clerk's report on ongoing administrative and operational matters was received and noted.

6. Financial Report
The Clerk presented a list of all financial transactions since the last meeting for review.
RESOLVED: Council approved the transactions and agreed that all financial matters were in order. The expenditure of £6.99 for a replacement switch for the public toilet was formally ratified.

7. Dangerous Driving on Glasgwm Road
Members considered reports and concerns from local residents regarding recurring instances of speeding and dangerous driving along Glasgwm Road towards the B4406/A5 junction during morning commuting hours, alongside suspected motoring offences. Members noted the importance of residents reporting incidents directly to North Wales Police to establish an evidence base, and observed that a regular morning travel pattern could assist Police enforcement and targeted spot checks.

RESOLVED: That the road safety concerns and regular morning travel pattern along Glasgwm Road will be reported to North Wales Police as well as a request for targeted morning spot checks in the area. Members and residents be encouraged to report specific incidents and vehicle details directly to North Wales Police as they occur.

8. Village Christmas Tree
Members considered the arrangements for the 2026 village Christmas tree, noting that provision is included within the Council's agreed budget. Members noted that

DRAFT

yr aelodau y byddai coeden tua 20 troedfedd o uchder yn ddigonol ar gyfer arddangosfa'r pentref.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo prynu coeden Nadolig y pentref ar gyfer 2026 gan Wyn Williams. Bod gwariant o hyd at £250 yn cael ei awdurdodi. Bod y Clerc yn cael ei awdurdodi i gwblhau'r archeb a'r dyddiad danfon gyda'r cyflenwr.

9. Cynnal a chadw coed ym mynwent y cyngor, St Tudclud.

Adolygodd yr aelodau gyflwr y goeden sy'n ymestyn dros y brif ffordd gyfagos, gan nodi bod cerbydau nwyddau trwm yn cael trafferth mynd heibio'n ddiogel heb daro'r canghennau.

PENDERFYNWYD: Bod y Clerc yn cael dyfynbrisiau ysgrifenedig gan arbenigwyr coed lleol i docio'r goeden sy'n ymestyn dros y ffordd ym mynwent St Tudclud, yn ôl at y wal ffin, a chyflwyno'r dyfynbrisiau hynny i'r Cyngor.

10. Diweddariad Perfformiad Rhwydwaith Wi-Fi Cymunedol a gweithdrefn ar gyfer adrodd problemau.
Cyflwynodd y Clerc ddiweddariad perfformiad ar rwydwaith Wi-Fi Cymunedol. Adroddwyd bod colli cysylltedd dros dro wedi digwydd yn ystod digwyddiad yn y bore ddydd Sadwrn 31 Hydref. Datryswyd y broblem drwy ailgychwyn yr offer a chadarnhaodd cofnodion rheolwr rhwydwaith 24 awr barhaus mai digwyddiad ynysig oedd hon. Nodwyd bod coeden gerllaw'r Hwb yn parhau i fod yn ffactor cyfyngol ar gyfer y cyswllt radio presennol.

Nodwyd y dylid adrodd unrhyw broblemau cysylltedd yn uniongyrchol i'r Clerc gyda'r dyddiad/amser bras, y lleoliad, y gweithgaredd sy'n cael ei geisio, a'r ddyfais a ddefnyddir.

Er mwyn gwella dibynadwyedd y rhwydwaith yn yr Hwb, ystyriodd yr aelodau symud y ddyfais ddiwifr o'r Hwb i'r gweithdai cyfagos sy'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, wedi'u cysylltu trwy gebl tanddaearol ar draws tir yr Hwb Cymunedol. Cynigiodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Dilwyn Roberts gynorthwyo i nodi'r swyddog priodol yn CBSC i ddelio â chaniatâd ffurfiol.

PENDERFYNWYD: Symud y ddyfais ddiwifr i'r gweithdai cyfagos ar ôl gosod cyswllt cebl tanddaearol. Dylai'r Clerc gyflwyno cais ffurfiol i'r Cyngor Sir am ganiatâd i osod y ddyfais ar y gweithdai. Dylai'r Clerc adrodd yn ôl i'r Cyngor ar ganiatâd ac unrhyw gostau cysylltiedig.

a tree of approximately 20ft would be sufficient for the village display.

RESOLVED: That the Council approve the purchase of the 2026 village Christmas tree from Wyn Williams. That expenditure of up to £250 be authorised. That the Clerk be authorised to finalise the order and delivery date with the supplier.

9. Tree maintenance at the council's cemetery, St Tudclud.

Members reviewed the condition of the tree overhanging the adjacent main road, noting that heavy goods vehicles are struggling to pass safely without striking the branches.

RESOLVED: That the Clerk obtain written quotations from local tree surgeons to trim the overhanging tree at Eglwys St Tudclud cemetery back to the boundary wall, and bring the quotations back to the Council.

10. Community Wi-Fi Network Performance Update and procedure for reporting problems.
The Clerk presented a performance update on the Community Wi-Fi network. It was reported that on Saturday 31 October, a temporary loss of connectivity occurred during a morning event. The issue was resolved by restarting the equipment and continuous 24-hour network controller logs confirmed that this was an isolated incident. It was noted that tree obstruction remains a limiting factor for the existing radio link.

It was noted that any connectivity issues should be reported directly to the Clerk with the date/approximate time, location, activity being attempted, and device used.

To improve network reliability at the Hwb, members considered relocating the wireless device from the Hwb to the neighbouring workshops owned by Conwy County Borough Council, connected via an underground cable trench across the Community Hwb's land. County Borough Councillor Dilwyn Roberts offered to assist in identifying the appropriate officer at CCBC to deal with formal consent.

RESOLVED: That the wireless receiver be relocated to the neighbouring workshops following installation of an underground cable link. The Clerk is to submit a formal request to the County Council for permission to affix the

DRAFT

11. Cais Cynllunio NP4/29/LB231A – 4 Rhosgoch, Cwm Penmachno
Ystyriodd yr aelodau gais cynllunio ar gyfer adeiladu stiwdio i artist (at ddefnydd personol).

PENDERFYNWYD: cyflwyno ymateb o "DIM GWRTHWYNEBIAD" i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, ar y sail bod y dyluniad, y deunyddiau, a'r lleoliad anamlwg y tu ôl i'r garej bresennol yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal ac na fyddant yn effeithio'n andwyol ar fwynhad preswylwyr cyfagos o'u heiddo.

12. Er gwybodaeth yn unig
Derbyniodd a nododd yr aelodau'r diweddariadau canlynol er gwybodaeth yn unig (heb wneud unrhyw benderfyniadau):

- **Si-so:** Bydd y Cyngor Sir yn fuan yn gosod si-so cynhwysol yn y parc ym Mhenmachno.
- **Barn Archwilio**: Mae'r Cyngor wedi derbyn barn archwilio ddiamod gan Archwilio Cymru (gyda'r anfoneb i ddilyn).
- **Cais gan y Grŵp Rhandiroedd (Gwely Blodau yn y Pentref):** Derbyniwyd gohebiaeth gan y grŵp rhandiroedd yn gofyn a fyddai unrhyw wrthwynebiad i greu gwely blodau yng nghanol y pentref. Nodwyd bod y tir dan sylw yn eiddo i'r Cyngor Sir.
- **Fferyllfa Betws-y-coed**: Derbyniwyd diweddariad yn cadarnhau bod hawliau dosbarthu meddyginiaethau Meddygfa Betws-y-coed yn parhau i fod wedi'u diogelu'n llawn; gall cleifion ym Mro Machno barhau i ddefnyddio fferyllfa'r feddygfa fel arfer, ac mae gan AD Locums Ltd 30 diwrnod i sicrhau safle addas o fewn y cod post LL24 0AB.
- **Contractwr Cynnal a Chadw Mynwent**: Mae Mr Evans wedi ymddiswyddo fel contractwr y Cyngor ar gyfer y fynwent; bydd y Clerc yn hysbysebu'r contract ac yn ceisio o leiaf dair cais yn unol â Rheoliadau Ariannol y Cyngor.
- **Cyfarfodydd Cyhoeddus Dŵr Cymru**: Derbyniwyd gwahoddiad trwy Laura Fielding (ar ran Claire Hughes AS) i gyfarfod cyhoeddus Dŵr Cymru.
- **Cyflwyno Band Eang Ffeibr Openreach**: Mae gwaith cyflwyno band eang ffeibr Openreach ym mhentref Penmachno yn gwneud cynnydd da.

device to the workshops. That the Clerk report back to the Council on permissions and any associated costs.

11. Planning Application NP4/29/LB231A – 4 Rhosgoch, Cwm Penmachno
Members considered a planning application for the construction of an artist's studio (personal use).

RESOLVED: to submit a response of NO OBJECTION to the Local Planning Authority on the grounds that the design, materials, and unobtrusive siting behind the existing garage are compatible with the character of the area and will not adversely affect neighbouring amenity.

12. For information only
Members received and noted the following updates for information only (with no decisions taken):

- **Seesaw:** The County Council will shortly install an inclusive seesaw at the park in Penmachno.
- **Audit Opinion:** The Council has received an unqualified audit opinion from Audit Wales (with the invoice to follow).
- **Allotment Group Request (Village Flowerbed):** Correspondence was received from the allotment group enquiring whether there would be any objection to establishing a flowerbed in the centre of the village. It was noted that the land in question is owned by the County Council.
- **Betws-y-coed Pharmacy:** An update was received confirming that Betws-y-coed Surgery's dispensing rights remain fully protected, patients in Bro Machno may continue using the surgery dispensary as normal, and AD Locums Ltd has 30 days to secure suitable premises within postcode LL24 0AB.
- **Cemetery Maintenance Contractor:** Mr Evans has resigned as the Council's cemetery contractor; the Clerk will advertise the contract and seek at least three applications in accordance with the Council's Financial Regulations.
- **Dŵr Cymru Public Meetings:** An invitation was received via Laura Fielding (on behalf of Claire Hughes MP) to Dŵr Cymru public meeting.
- **Openreach Fibre Rollout:** Openreach's fibre broadband rollout within Penmachno village is progressing well.

DRAFT

13. Eitemau i'w Cynnwys ar yr Agenda ar gyfer y Cyfarfod Nesaf

Gofynnodd yr aelodau i'r eitemau sylweddol canlynol gael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod arferol nesaf y Cyngor:

- **Arwyneb Tarmac y Tu Allan i Fynwent Arwelfa**: I ystyried cyflwr yr arwyneb tarmac y tu allan i Fynwent Arwelfa a'r gwaith atgyweirio sydd ei angen.
- **Contractwr Gwaith Tir ar gyfer Mynwentydd y Cyngor:** I ystyried dyfynbrisiau/tendrau ac i benodi contractwr gwaith tir newydd ar gyfer y mynwentydd.
- **Cyllideb a Phraesept 2027/28**: I ystyried amcangyfrifon drafft y gyllideb, ac i benderfynu ar ofynion cyllidebol y Cyngor a'r praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2027/28.

Dyddiad, Amser a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf: Nos Iau, 14 Ionawr 2027 am 19:30 yn Festri Capel Salem, Penmachno

Diwedd: Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 21:18.

13. Items to be Included on the Agenda for the Next Meeting

Members requested that the following substantive items be included on the agenda for the next ordinary meeting of the Council:

- **Tarmac Surface Outside Arwelfa Cemetery**: To consider the condition and required repair of the tarmac surface outside Arwelfa Cemetery.
- **Cemetery Groundworks Contractor**: To consider quotations/tenders and appoint a new cemetery groundworks contractor.
- **2027/28 Budget and Precept**: To consider the draft budget estimates and determine the Council's budget requirement and precept for the 2027/28 financial year.

Date, Time and Place of Next Meeting: Thursday, 14 January 2027 at 19:30 at Capel Salem Vestry, Penmachno

Closure: The Chair closed the meeting at 21:18

DRAFT